

# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU.

## RHEOLAU'R GYSTADLEUAETH SIARAD CYHOEDDUS

**Aelodau'r tîm o 4 i gynnwys cadeirydd a phanel (tri siaradwr).**

### **Trefn y Gystadleuaeth**

Ni fydd angen paratoi ar gyfer y gystadleuaeth yma o flaen llaw.

Rhoddir dewis o gasgliad o gwestiynau cyffredinol i'r Cadeirydd yn unig 10 munud cyn y gystadleuaeth. Bydd y cadeirydd yn dewis tri chwestiwn allan o'r casgliad i'r Panel drafod yn ystod y gystadleuaeth. Ni fydd y Cadeirydd yn gallu cyfathrebu o flaen llaw â'r tîm ynghylch y cwestiynau a ddewisir ganddo/ganddi. Ni ellir rhoi unrhyw fanylion ysgrifenedig i'r Panel ynghylch y testunau i'w trafod, ac ni ellir defnyddio ffôn symudol ar unrhyw adeg.

Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am gyflwyno'r Panel i'r gynulleidfa. Yna cyflwyno cwestiwn 1, amseru'r drafodaeth a chrynhoi eu hatebion, yna bydd angen ailadrodd y broses yna am gwestiwn 2 a 3 a sicrhau bod digon o amser yn weddill i gloi'r cyfarfod. Dylid ymdrin â'r gystadleuaeth fel cyfarfod ffurfiol.

Disgwylir i'r tri siaradwr gyflwyno safbwyntiau gwahanol i'r cwestiynau, e.e. dau i fynd o blaid ac un yn erbyn. Bydd hefyd cyfle i'r Cadeirydd yn ystod y ddadl i ofyn cwestiynau neu gynnig safbwynt arall i'r cwestiwn. Ar ôl i'r tri siaradwr gyflwyno'u dadleuon, bydd y Cadeirydd yn crynhoi eu dadleuon ac yn symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

Gall y cystadleuwyr ddefnyddio nodiadau ar y llwyfan, ond fe'u cosbir am eu gor-ddefnyddio.

### **Amseru a Chosbiadau Amser**

Caniateir 20 munud i bob tîm gan ddechrau gyda chyflwyniad y cadeirydd a disgwylir i'r tîm gadw o fewn yr amser a benodir. Gellir rhannu'r amser yn ôl doethineb y tîm. Tynnir un marc oddi wrth y tîm am bob munud (neu ran o funud) dros yr amser penodedig.

### **Marciau**

#### **Cadeirydd**

Cyflwyniad, arwain y ddadl, rheoli'r panel  
Amseru, crynhoi'r drafodaeth a chloi 20

#### **Siaradwyr x3**

Ansawdd, priodoldeb ac amrywiaeth y ddadl  
Cydweithio fel tîm 20 x3

#### **Tîm yn gyffredinol**

Ymarweddiad cyffredinol ac arddull  
Safon a defnydd iaith 20

### **CYFANSWM**

**100**

Yn ddibynnol ar y nifer o dimau sy'n cofrestru ar y 1af o Fawrth, bydd yr Urdd yn cysylltu â phob tîm ar yr 8fed o Fawrth i gadarnhau os bydd rowndiau Rhanbarthol neu os bydd pob tîm yn mynd ymlaen i'r rownd Genedlaethol yn awtomatig.